


Briff Ymchwil

# Y Cwnsler Cyffredinol - Hysbysiad Hwylus am y Cyfansoddiad

**Awdur:** Alys Thomas
**Dyddiad:** Mawrth 2018

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Alys Thomas**
Dyddiad: **Mawrth 2018**
Rhif Papur: **18-019**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: 0300 200 6305
: Alys.Thomas@Cynulliad.Cymru
: seneddymchwil.blog
: @SeneddYmchwil
: Cynulliad.Cymru/Ymchwil

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Y Cwnsler Cyffredinol - Hysbysiad Hwylus am y Cyfansoddiad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Y Cwnsler Cyffredinol

Mae **adran 49** o ***Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*** ( "Y Ddeddf") yn darparu ar gyfer penodi **Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru** a fydd yn:

- darparu cyngor cyfreithiol i'r llywodraeth;
- goruchwylio gwaith yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol sy'n darparu gwasanaethau cyfreithiol i Lywodraeth Cymru;
- goruchwylio erlyniadau ar ran Llywodraeth Cymru;
- goruchwylio cynrychiolaeth Llywodraeth Cymru yn y llysoedd;
- ystyried a oes angen cyfeirio Biliau sydd wedi eu pasio gan y Cynulliad at y Goruchaf Lys i benderfynu a ydynt o fewn cymhwysedd y Cynulliad (wedi'i arfer yn annibynnol ar y llywodraeth);
- ateb cwestiynau am ei waith ef neu hi yn y Cynulliad; a
- chyflawni unrhyw swyddogaethau eraill er budd y cyhoedd gan gynnwys, pan fo'r Cwnsler Cyffredinol yn credu ei bod yn briodol, cychwyn, amddiffyn neu ymddangos mewn unrhyw achosion cyfreithiol sy'n ymwneud â swyddogaethau Llywodraeth Cymru (wedi'u harfer yn annibynnol ar y llywodraeth).

O dan adran 45 o Ddeddf 2006, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn aelod o Lywodraeth Cymru.

Mae'r rôl hon yn cyfateb i rôl **Twrnai Cyffredinol** a **Chyfreithiwr Cyffredinol** Llywodraeth y DU.

## Telerau'r penodiad

Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn cael ei benodi gan y Frenhines ar argymhelliad y Prif Weinidog, ond rhaid i'r argymhelliad ar gyfer y penodiad gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol. Nid oes yn rhaid i'r person a benodir fod yn Aelod Cynulliad, er y gall Aelod Cynulliad wasanaethu fel Cwnsler Cyffredinol (mae'r Prif Weinidog, y Gweinidogion a'r Dirprwy Weinidogion yn cael eu gwahardd yn benodol rhag gwneud hynny yn y Ddeddf). Mae **Nodiadau Esboniadol i'r Ddeddf** yn disgrifio'r swydd fel un o "statws 'gweinidog'" ond ni all y deiliad fod yn un o 'Weinidogion Cymru'.

Caiff y Prif Weinidog, gyda chytundeb y Cynulliad Cenedlaethol, argymell i'r Frenhines gael gwared ar y Cwnsler Cyffredinol ar unrhyw adeg; Caiff y Cwnsler Cyffredinol gyflwyno ei ymddiswyddiad i'r Frenhines ar unrhyw adeg. Yn wahanol i Weinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru, nid oes yn rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol ymddiswyddo ar ôl pleidlais o ddiffyg hyder yng Ngweinidogion Cymru. Fodd bynnag, bydd yn peidio â dal y swydd pan enwebir Prif Weinidog newydd o dan **adran 47** (ond gellid ei ail-benodi gan y Prif Weinidog sy'n dod i rym).

Os yw swydd y Cwnsler Cyffredinol yn wag, neu os yw'r Cwnsler Cyffredinol yn methu â gweithredu am unrhyw reswm, gellir arfer swyddogaethau'r swydd gan berson sydd wedi'i ddynodi gan y Prif Weinidog. Nid yw'n ofynnol cael cymeradwyaeth y Frenhines na chytundeb gan y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn gwneud hyn. Fodd bynnag, mae'r cyfnod y gellir arfer swyddogaethau'r Cwnsler Cyffredinol yn rhinwedd dynodiad yn gyfyngedig i uchafswm o chwe mis a daw dynodiad i ben os caiff rhywun ei benodi'n Brif Weinidog.

## Cyfranogiad y Cwnsler Cyffredinol yn nhrafodion y Cynulliad

Mae Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol yn ei gwneud yn glir y bydd y Cwnsler Cyffredinol yn cael ei drin yr un fath â Gweinidogion Cymru yn Nhrafodion y Cynulliad. Yr un eithriad yw na fydd Cwnsler Cyffredinol nad yw'n Aelod Cynulliad yn gallu pleidleisio. Mae Rheol Sefydlog 9.4 yn datgan:

> *Os nad yw'r Cwnsler Cyffredinol yn Aelod, mae'r Rheolau Sefydlog yn gymwys i'r Cwnsler Cyffredinol fel y maent yn gymwys i Aelodau a chaiff y Cwnsler Cyffredinol gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad ond ni chaiff bleidleisio.*

Bydd disgwyl i'r Cwnsler Cyffredinol, boed yn AC neu beidio, ateb cwestiynau llafar ac ysgrifenedig a gwneud datganiadau llafar neu ysgrifenedig.

Mae **adran 34** o Ddeddf 2006 yn ymdrin â chyfranogiad y Cwnsler Cyffredinol yn nhrafodion y Cynulliad ac mae'n cynnwys darpariaeth sy'n galluogi'r Cwnsler Cyffredinol i wrthod darparu dogfennau neu i ateb cwestiynau am achosion troseddol penodol (gall y Cwnsler Cyffredinol fod yn cynnal achosion troseddol ar ran Llywodraeth Cymru) os yw ef neu hi yn ystyried y gallai gwneud hynny niweidio'r achos hwnnw, neu y byddai fel arall yn groes i fudd y cyhoedd.

## Achosion Cyfreithiol

O dan **adran 67** o Ddeddf 2006, mae'r Cwnsler Cyffredinol, fel cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn y llysoedd, yn gallu cychwyn, amddiffyn neu ymddangos mewn unrhyw achosion cyfreithiol sy'n ymwneud â materion ynghylch unrhyw swyddogaethau sy'n arferadwy gan Lywodraeth Cymru, ar yr amod bod y Cwnsler Cyffredinol yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny er mwyn hyrwyddo neu warchod lles y cyhoedd.

## Y Goruchaf Lys yn craffu ar Filiau'r Cynulliad

Mae **adran 112** o Ddeddf 2006 yn darparu dull i'r Cwnsler Cyffredinol neu Dwrnai Cyffredinol y DU gael penderfyniad gan y Goruchaf Lys ynghylch a yw Biliau'r Cynulliad neu ddarpariaethau penodol ym Miliau'r Cynulliad o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Ni ellir ond gwneud hyn o fewn y cyfnod o bedair wythnos yn dechrau ar y dyddiad y pasiwyd y Bil gan y Cynulliad Cenedlaethol. Digwyddodd hyn ar dri achlysur yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Atgyfeiriwyd dau Fil gan y Twrnai Cyffredinol ac un gan y Cwnsler Cyffredinol.

O dan adran 111B o Ddeddf 2006, gall y Cwnsler Cyffredinol hefyd ofyn i'r Goruchaf Lys benderfynu a yw Bil y Cynulliad yn ymwneud â phwnc gwarchodedig. Mae'r pynciau gwarchodedig i'w gweld yn adran 11A o Ddeddf 2006 ac maent yn cynnwys enw'r Cynulliad a phersonau sydd â hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad.

## I gael rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw agwedd ar y cyfansoddiad, cysylltwch ag Alys Thomas (**alys.thomas@cynulliad.cymru**).